Cyngor Dinas Bangor

Cofnodion Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor Llawn

Nos Iau 16eg Gorffennaf 2026, Neuadd y Penrhyn, 6:00 y.h

Mynychwyr

Cynghorwyr:	Cynghorwyr: Delyth Russell (Cadeirydd), Jackie Spence (Is Gadeirydd), Eirian Williams Roberts, Medwyn Hughes, Gwynant Roberts, Gareth Parry, Steve Bell, Nigel Pickavance, John Wynn Jones (ymunodd am 6.15 pm)
Swyddogion:	Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol
Eraill:	-
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr: Elin Walker Jones, Nick Pritchard, Dylan Fernley, Huw Wyn Jones, Jac Jolly, Gareth Roberts, Salamatu Fada, Sam Njoku, Mustakim Raza, Lisa Toth, John Wyn Williams
Absennol heb ymddiheuriad:	-

Dechreuodd y cyfarfod am 6:00 pm.

Eitem	Cyfeirnod	Gweithredu
1.	**FC37/26**	**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Elin Walker Jones, Nick Pritchard, Dylan Fernley, Huw Wyn Jones, Jac Jolly, Gareth Roberts, Salamatu Fada, Sam Njoku, Mustakim Raza, Lisa Toth, John Wyn Williams
2.	**FC38/26**	**Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:** Dim.
3.	**FC39/26**	**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd:** O dan adran 1, paragraff 2 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (mynediad i gyfarfodydd) 1960, caiff y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol gan y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. **Penderfynwyd:** Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod at ddiben trafod yr eitem nesaf ar yr agenda.
4.	**FC40/26**	**Trafod materion staffio cyfrinachol:** Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem hon oherwydd natur gyfrinachol y materion staffio a oedd i'w trafod.

Blaenlythrennau'r Cadeirydd: .....

Rhoddodd y Maer ddiweddariad cyfrinachol i'r Cynghorwyr ynghylch y sefyllfa staffio bresennol.

Atgoffwyd y Cynghorwyr o'u dyletswydd i gynnal cyfrinachedd ac o'u rhwymedigaethau, wrth ddechrau yn eu swydd, i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorwyr. Ailadroddwyd na ddylid rhannu na datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â materion staffio heb awdurdod priodol.

Ni chofnodir unrhyw fanylion pellach yn y cofnodion cyhoeddedig hyn oherwydd natur gyfrinachol y materion a drafodwyd.

FC40/26a **Penderfynwyd:**
Derbyniwyd yr adroddiad diweddaru gan y Cyngor.

FC40/26b **Penderfynwyd:**
Nododd y Cyngor fod y Pwyllgor Staffio wedi penodi Lisa Goodier yn Swyddog Priodol Dros Dro, Cyfarwyddwr Dinesig Dros Dro a Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro (RFO) i Gyngor Dinas Bangor.

Ar ôl ystyried, penderfynodd y Cyngor Llawn gadarnhau'n ffurfiol benodiad Lisa Goodier yn Swyddog Priodol Dros Dro a Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro i Gyngor Dinas Bangor, i ddechrau ar unwaith.

FC40/26c **Penderfynwyd:**
Awgrymodd y Cyngor, er mwyn cynorthwyo'r Swyddog Priodol Dros Dro gyda dyletswyddau Swyddog Ariannol Cyfrifol, y dylid penodi cyfrifydd yn y cyfamser.

Penderfynwyd:
FC40/26d Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr eraill nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Cytunwyd mai dim ond trwy apwyntiad i swyddfeydd Cyngor y Ddinas gyda'r Cadeirydd a Chyfarwyddwr Dros Dro'r Ddinas y gellir gwneud hyn fel y gellir darllen yr adroddiad i'r Cynghorwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am: 6:50 pm.

Llofnodwyd gan: **.....**

Dyddiad: **.....**